Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)

Gorffennaf 2019

Ar 8 Gorffennaf 2019, cafodd Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 25 Mehefin 2019, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig er mwyn iddo drafod yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 2 Gorffennaf 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen i'r Pwyllgor drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a chytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 6 Rhagfyr 2019.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 14 Chwefror 2020, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.